**GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN**

**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 2) 2015**

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 35(1) a (3) o Ran IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn allan yma fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Parcio 1989 a chan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluog eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Caiff Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) 2014 ("Y Gorchymyn Cydgyfnerthu") drwy hyn ei amryw i'r graddau y mae'n ymwneud â Maes Parcio Porth y Dwyrain, Llanelli drwy ddiwygio'r disgrifiad ar Atodlen 2 i'r Gorchymyn fel y disgrifiwyd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar y 10fed o Fehefin, Dwy Fil Undeg a Chwech, a gellid cyfeirio ato fel Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 2) 2015.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** yma
Yr 20fed o Fai, 2016
Ger fy mron i,

Linda Rees-Jones

**Linda Rees-Jones**
**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**

14668

## YR ATODLEN

| Mannau Parcio - LLANELLI | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pryd y mae'r mannau parcio ar gael: Bob awr, Bob dydd | | | | |
| Yr Oriau Codi Tâl 8.00 a.m. tan 6.00 p.m. | | | | |
| Y Dyddiau Codi Tâl yw Bob Dydd | | | | |
| **Lleoliad** | **Disgrifiad** | **Dosbarthiadau o Gerbydau** | **Lle yn union y caiff y cerbydau aros** | **Y Cyfnod Aros Hwyaf** |
| Maes Parcio Porth y Dwyrain | Rhan o'r ffin orllewinol yw adeilad datblygiad Porth y Dwyrain a'r lleoedd parcio Talu ac Arddangos, sydd at ddibenion llwytho ac a rennir. Y ffin ogleddol yw'r terfyn â'r brif ffordd, sef yr A484, Water Street. Rhan o'r ffin ddwyreiniol yw'r terfyn â'r brif ffordd, sef yr A484, Water Street a man parcio preifat (ac eithrio dydd Sadwrn a dydd Sul pan fydd yn fan Talu ac Arddangos) a'r ffin ddeheuol yw'r mynediad i'r maes parcio. | Cerbyd nad yw'n pwyso mwy na 3.5 tunnell yn ei grynswth; Cerbyd sy'n llai na 2 fetr (6 throedfedd 8 modfedd) o uchder; Cerbyd a grëwyd i gludo dim mwy nag 8 teithiwr ac eithrio'r gyrrwr. | Yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr | 4 awr yn ystod y cyfnod codi tâl |
| Maes Parcio Porth y Dwyrain | Rhan o'r ffin orllewinol yw'r prif faes parcio Talu ac Arddangos. Y ffin ogleddol yw'r ffordd fynediad i'r maes parcio. Y ffin ddwyreiniol yw man parcio preifat (ac eithrio dydd Sadwrn a dydd Sul pan fydd yn fan Talu ac Arddangos). | Cerbyd nad yw'n pwyso mwy na 3.5 tunnell yn ei grynswth; Cerbyd sy'n llai na 2 fetr (6 throedfedd 8 modfedd) o uchder; Cerbyd a grëwyd i gludo dim mwy nag 8 teithiwr ac eithrio'r gyrrwr. | Yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr | 4 awr yn ystod y cyfnod codi tâl |

## ATODLEN

| Mannau Parcio - LLANELLI | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pryd y mae'r mannau parcio ar gael: Bob awr, Bob dydd | | | | |
| Yr Oriau Codi Tâl 10.00 a.m. tan 6.00 p.m. | | | | |
| Y Dyddiau Codi Tâl: Bob Dydd | | | | |
| **Lleoliad** | **Disgrifiad** | **Dosbarthiadau o Gerbydau** | **Lle yn union y caiff y cerbydau aros** | **Y Cyfnod Aros Hwyaf** |
| Maes Parcio Porth y Dwyrain | Rhan o'r ffin orllewinol yw adeilad datblygiad Porth y Dwyrain. Y ffin ogleddol yw'r prif faes parcio Talu ac Arddangos. Y ffin ddwyreiniol yw'r prif faes parcio Talu ac Arddangos, a'r ffin ddeheuol yw Stepney Place/yr orsaf fysiau. | Cerbyd nad yw'n pwyso mwy na 3.5 tunnell yn ei grynswth; Cerbyd sy'n llai na 2 fetr (6 throedfedd 8 modfedd) o uchder; Cerbyd a grëwyd i gludo dim mwy nag 8 teithiwr ac eithrio'r gyrrwr. | Yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math | 4 awr yn ystod y cyfnod codi tâl |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | arbennig o ddefnyddiwr | |
| Maes Parcio Porth y Dwyrain | **Pryd y mae'r mannau parcio ar gael: Bob awr, Bob dydd**<br>**Yr Oriau Codi Tâl 7.00 a.m. tan 10.00 a.m.**<br>**Y Dyddiau Codi Tâl: Bob Dydd** | | | |
| | Rhan o'r ffin orllewinol yw adeilad datblygiad Porth y Dwyrain. Y ffin ogleddol yw'r prif faes parcio Talu ac Arddangos. Y ffin ddwyreiniol yw'r prif faes parcio Talu ac Arddangos, a'r ffin ddeheuol yw Stepney Place/yr orsaf fysiau | Dim ond cerbyd nwyddau (sy'n pwyso mwy na 3.5 tunnell yn ei grynswth ac sy'n fwy na 2 fetr (6 throedfedd 8 modfedd). | Yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr | Rhwng 7.00am a 10.00am, sef yr oriau codi tâl, yn unig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ATODLEN** | | | | |
| **Mannau Parcio - LLANELLI** | | | | |
| **Pryd y mae'r mannau parcio ar gael: Bob Awr Yn ystod y Dyddiau Codi Tâl** | | | | |
| **Yr Oriau Codi Tâl 8.00 a.m. tan 6.00 p.m.** | | | | |
| **Y Dyddiau Codi Tâl: Ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn unig** | | | | |
| **Lleoliad** | **Disgrifiad** | **Dosbarthiadau o Gerbydau** | **Lle yn union y caiff y cerbydau aros** | **Y Cyfnod Aros Hwyaf** |
| Maes Parcio Porth y Dwyrain | Y ffin orllewinol yw'r prif faes parcio Talu ac Arddangos. Y ffin ogleddol yw'r maes parcio talu ac arddangos. Y ffin ddwyreiniol yw'r brif ffordd, sef yr A484, Water Street a'r ffin ddeheuol yw'r ffordd fynediad i'r maes parcio. | Cerbyd nad yw'n pwyso mwy na 3.5 tunnell yn ei grynswth; Cerbyd sy'n llai na 2 fetr (6 throedfedd 8 modfedd) o uchder;<br>Cerbyd a grëwyd i gludo dim mwy nag 8 teithiwr ac eithrio'r gyrrwr. | Yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr | 4 awr yn ystod y cyfnod codi tâl. |
| Maes Parcio Porth y Dwyrain | Y ffin orllewinol yw'r prif faes parcio Talu ac Arddangos. Y ffin ogleddol yw ffordd fynediad y maes parcio. Y ffin ddwyreiniol yw'r brif ffordd, sef yr A484 Cylchfan Castell Abertawe a'r ffin ddeheuol yw Stepney Place. | Cerbyd nad yw'n pwyso mwy na 3.5 tunnell yn ei grynswth; Cerbyd sy'n llai na 2 fetr (6 throedfedd 8 modfedd) o uchder;<br>Cerbyd a grëwyd i gludo dim mwy nag 8 teithiwr ac eithrio'r gyrrwr. | Yn gyfan gwbl o fewn y lleoedd parcio a ddynodwyd ac nid mewn lle y nodwyd ei fod wedi ei gadw ar gyfer math arbennig o ddefnyddiwr | 4 awr yn ystod y cyfnod codi tâl. |




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100023377 / © Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023377

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

EAST GATE CAR PARK, LLANELLI
(REMEDIAL WORKS)

DESIGNATED PARKING BAYS
'PERMIT HOLDERS ONLY'

CONSTRUCTION

NOT TO SCALE

80/0041/256

RW 01

-